

■
  
Hafan
   
Pori
   
Awduron A-Z
   
Chwiliad testun rhydd
   
Chwiliad testun rhydd

English



PDF Argraffu Cyfeirnodï

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

## WILLIAMS, WILLIAM NANTLAIS (1874 - 1959), gweinidog (MC), golygydd, bardd ac emynydd

**Enw:** William Nantlais Williams

**Dyddiad geni:** 1874

**Dyddiad marw:** 1959

**Priod:** Annie Williams (née Price)

**Priod:** Alice Maud Williams (née Jones)

**Rhiant:** Mari Williams

**Rhiant:** Daniel Williams

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog (MC), golygydd, bardd ac emynydd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 30 Rhagfyr 1874 yn Llawr-cwrt, Gwyddgrug, ger Pencader, Sir Gaerfyrddin, yn ieuangaf o ddeg plentyn Daniel a Mari Williams. Cafodd addysg yn ysgol elfennol New Inn, ac yn 12 oed prentisiwyd ef yn wehydd gyda'i frodyr. Magwyd ef yn eglwys y New Inn, ac yno y dechreuodd bregethu yn 1894. Addysgwyd ef ar gyfer y weinidogaeth yn ysgol ramadeg Castellnewydd Emlyn ac yng Ngholeg Trefeca. Ymddiddorai mewn barddoniaeth yn ieuanc a chyhoeddodd gasgliad o'i ganeuon, *Murmuron y nant* (1898) pan oedd yn fyfyrwr. Enillodd gadair mewn eisteddfod yn Rhydaman yn 1899 dan feiriadaeth **Walcyn Wyn**, a chafodd alwad yn fuan ar ôl hynny i fugeilio eglwys ieuanc Bethany yn y dref honno. Ordeiniwyd ef yn 1901, ac ym Methany y llafuriodd o'r flwyddyn 1900 hyd ei ymddeoliad yn 1944 (eithr bu'n bwrw golwg dros eglwys fechan y MC yn Llanybyie ym mlynnydoedd cyntaf y ganrif). Ei uchelgais oedd bod yn bregethwr cyrddau-mawr ac yn fardd llwyddiannus mewn eisteddfodau. Bu'n gyd-fuddugol ar chwech o delynegion yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor (1902); cafodd gadair eisteddfod Meirion yn 1903, a chadair eisteddfod y Queen's Hall, Llundain, yn 1904. Y flwyddyn honno daeth y Diwygiad i Rydaman, a daeth Nantlais dan ddylanwad y cyffro hwnnw yn drwm. Penderfynodd gysegru ei fywyd bellach i efengyleiddo a hyrwyddo bywyd ysbrydol yr eglwysi. Priododd ddwywaith; (1) yn 1902 ag Alice Maud Jones (wryes yr hynod Thomas Job, Cynwyl), a ganwyd tri o feibion a dwy ferch o'r briodas; bu hi farw yn 1911; (2) yn 1916 ag Annie Price (prifathrawes ysgol Aberpennar a merch T. Price, gweinidog Brechfa). Bu farw 18 Mehefin 1959, a chladdwyd ei weddillion o flaen capel newydd Bethany.

Ar ôl y Diwygiad cymdeithasai Nantlais â'r gwŷr blaenllaw a gyrchai i'r cynadledau blynyddol efengylaidd yn Keswick a Llandrindod - **E. Keri Evans (Bywg. 2, 14-15)**, R. B. Jones, W. W. Lewis, **Seth Joshua**, W. S. Jones, W. Talbot Price, &c., ac yn 1917 sefydlodd gynhadledd flynyddol o'r un math yn Rhydaman (gweler J. D. Williams, *Cynhadledd y Sulgwyn Rhydaman* (Rhydaman, 1967). Bu llwyddiant mawr ar ei lafur ym Methany; codwyd ysgoldy ym Mhantylffynnon yn 1904, ac un arall yn Nhir-y-dail yn 1906 (corfforwyd eglwys yno yn 1911 (gweler W. N. Williams, *Y Deugain mlynedd hyn* (Rhydaman, 1921)). Adeiladwyd capel hardd newydd ym Methany yn 1930. Dyrchafwyd ef i gadair Sasiwn y De (1943), ac yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1940). Bu'n gohebu am flynyddoedd ag **Eluned Morgan** o Batagonia, ac ar ei thaer ymbil hi aeth Nantlais ar daith bregethu am dri mis i'r Wladfa yn 1938 (gweler yr ohebiaeth rhyngddo ac **E. M.** yn Dafydd Ifans, gol., *Tyred drosodd*, 1977).

Er i Nantlais ymwadu â chystadlu mewn eisteddfodau ar ôl y Diwygiad daliodd ati i lenyddu, gan gysegru'i ddoniau a'i awen bellach i genhadaeth yr Efengyl. Bu'n un o olygyddion *Y Lladmerydd* (1922-26), ac yn olygydd *Yr Efenglydd* (1916-33), a *Trysorfa'r Plant* (1934-47). Cyfansoddodd lawer o emynau ar gyfer y plant, yn wir ni bu nemor neb yn fwy llwyddiannus nag ef fel emynydd y plant. Ceir y rheini mewn tri chasgliad: *Moliant plentyn*, rhan I (1920); *Moliant plentyn*, rhan II (1927); a *Clychau'r Gorlan* (1942). Y mae graen ac eneiniad ar ei emynau eraill, a gwelir llawer ohonynt yn y casgliadau cyfoes o bob enwad. Ceir casgliad o'i brif emynau yn *Emynau'r daith* (1949), ac yn y casgliad *Clychau Seion* (a olygwyd ganddo c. 1952). Cyhoeddodd hefyd (gyda chydweithrediad **Daniel Protheroe (Bywg., 754-5)**, **David Evans (Bywg. 2, 13-14)**, a **J. T. Rees (Bywg. 2, 48)** nifer o ganeuon i blant ynghyd â gweithiau cerddorol eraill. Ni chollodd mo'i ddawn fel bardd telynegol ychwaith, er iddo ymwrthod â chystadlu, fel y dengys ei gasgliad o delynegion, *Murmuron newydd* (1926), a'i rigymau i blant, *Darlun a chân* (1941). Cyn diwedd oes, ar gyfrif ei gyfraniad llenyddol, cafodd radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Ceir trafodaeth arno fel emynydd a bardd, ynghyd â rhestr o'i holl gynhyrchion o'r wasg, ym *Mwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, I, rhif 4 (1971), 77-99. Ysgrifennodd lawer i'r cylchgronau a olygwyd ganddo, ac i'r *Goleuad*. Ceir penodau o atgofion oes yn yr olaf (1955), a chyhoeddwyd y rheini yn 1967 dan y teitl *O gopa bryn Nebo*.

### Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts** , (1904 - 1993)

### Ffynonellau

At y ffynonellau a nodir yng nghorff yr ysgrif,

*Who's who in the Free Churches?* (1951) (1951), 358

*Y Drysorfa*, 1944, 47-50

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1960, 275-76

William Morris (gol.), *Deg o Enwogion* (1965) (1965), 51-9,

adnabyddiaeth a gwybodaeth bersonol

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Nantlais Williams**

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 9651677

Wikidata: Q6964330

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodï

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Roberts, G. M., (1997). WILLIAMS, WILLIAM NANTLAIS (1874 - 1959), gweinidog (MC), golygydd, bardd ac emynydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-WILL-NAN-1874>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiwydwr gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government